

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

Rybgi'r Urdd - mi fydd tîm o ferched a thîm o fechgyn yn cystadlu yng nghystadleuaeth Rybgi Ceredigion ar ddydd Iau, Chwefror 16eg. Mi fydd yr ysgol yn trefnu bws i gludo'r plant i Dregaron. Mi fydd y bws yn gadael am 8.30 ac yn dychwelyd erbyn 3.30. Mi fydd angen bocs bwyd a dillad addas - rhagor o fanylion i ddilyn.

Ymarferion Rybgi – nos Fercher, Chwefror 1af, 3.30 – 4.30.

Streiciau staff – nid yw'r streiciau yn effeithio ar drefniadau'r ysgol ar hyn o bryd - mi fyddaf yn eich hysbysu os fydd unrhyw newid i'r drefn yn y dyfodol.

Eisteddfod yr ysgol - mae'r disgyblion a'r staff yn dechrau paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Ysgol a gynhelir yn neuadd yr ysgol ar brynhawn ddydd Iau, Chwefror 16eg a thrwy'r dydd ar ddydd Gwener, Chwefror 17eg. Mi fydd nifer o gystadlaethau llwyfan megis llefaru, canu ac offerynnol a hefyd cystadlaethau llên, celf a llawysgrifen. Mi fydd pob plentyn yn cael cyfre i gymryd rhan yn y rhagbrofion ar ddydd Llun, Chwefror 13eg ac mi fydd un o bob tî (Arthur, Caradog a Dewi) yn perfformio ar ddiwrnodau'r Eisteddfod. Mi fydd pob plentyn hefyd yn canu ac yn llefaru mewn grŵp ac yn rhan o Gôr y tî Gan fod Rybgi'r Urdd ar ddydd Iau, Chwefror 16eg mi fyddwn yn sicrhau fod holl eitemau Bl. 5 a 6 yn digwydd ar ddydd Gwener, Chwefror 17eg.

PWYSIG - cinio ar ddiwrnod yr Eisteddfod ysgol – mi fydd cadeiriau wedi eu gosod yn y neuadd ar gyfer yr Eisteddfod Ysgol ar ddydd Gwener, Chwefror 17eg ac ni fydd modd i ni ddarparu cinio poeth. Gofynnir yn garedig i ddisgyblion ddod â phencyn bwyd ar gyfer cinio ar ddydd Gwener, Chwefror 17eg. Cofiwch gysylltu gyda'r ysgol os oes angen unrhyw gymorth gyda hyn.

Cystadlu yn UNIGOL yn Eisteddfod yr Urdd - os yw eich plentyn / plant yn bwriadu cystadlu yn unigol yn Eisteddfod yr Urdd eleni yna **MI FYDD ANGEN I CHI GOFRESTRU DRWY WEFAN YR URDD – dolen:** [✉ 2023 | Urdd Gobaith Cymru](#)
Mi fydd angen gwneud hyn **erbyn Chwefror 13eg**.

Mi fydd yr ysgol yn cofrestru grwpiau torfol megis côr, parti llefaru, cerddorfa, grwpiau dawnsio ac ati.

Newidiadau i staff y Meithrin – mae **Lleucu Haf** wedi derbyn swydd fel athrawes ym Mhatagonia ac mi fydd yn gorffen eu dyletswyddau yn y Meithrin ar ddydd Gwener, Chwefror 17eg. Hoffwn ddiolch iddi am ei gwaith a dymuno'n dda iddi i'r dyfodol.

Mi fydd **Rhian Davies**, athrawes y Meithrin yn dychwelyd o'i chyfnod mamolaeth ar ddydd Llun, Chwefror, 13eg. Yn dilyn hanner tymor mi fydd Siân Evans a Sioned Jones yn parhau i rannu swydd yn y Meithrin (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd) ac yn cyd-addysgu gyda Rhian Davies.

Gwyliau hanner Tymor – Mi fydd yr ysgol yn cau ar ddydd Gwener, Chwefror 17eg ac yn ail agor ar ddydd Llun, Chwefror 27ain.

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

**R C Williams, Pennaeth,
31/01/2023**

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

Urdd Rugby - a team of girls and a team of boys will be competing in the Ceredigion Rugby competition on Thursday, February 16th. The school will organize a bus to transport the children to Tregaron. The bus will leave at 8.30 and return by 3.30. Pupils will need packed lunch and suitable clothes - more details to follow.

Rugby Training – Wednesday evening, February 1st, 3.30 – 4.30.

Staff strikes - the strikes do not affect the school's arrangements at present - I will inform you if there is any change to the arrangements in the future.

The school Eisteddfod - the pupils and staff are starting to prepare for the School Eisteddfod which will be held in the school hall on the afternoon of Thursday, February 16th and all day on Friday, February 17th. There will be a variety of stage competitions such as reciting, singing and instrumental solos. There will also be literature, art and handwriting competitions. All children will have the opportunity to take part in the prelims on Monday, February 13th and one from each team / house (Arthur, Caradog and Dewi) will perform on stage on the days of the Eisteddfod. Each child will also sing and recite in their house groups and be a member of the house choir.

Due to the Urdd Rugby being held on Thursday, February 16th we will ensure that all Yr 5 and 6 items take place on Friday, February 17th.

IMPORTANT - lunch on the day of the school Eisteddfod - chairs will be set up in the hall for the School Eisteddfod on Friday, February 17th and we will not be able to provide a hot lunch. Pupils are kindly asked to bring a packed lunch on Friday, February 17th. Please contact the school if you need any help with this.

Competing INDIVIDUALLY in the Urdd Eisteddfod - if your child / children intend to compete individually in the Urdd Eisteddfod this year then **YOU WILL NEED TO REGISTER THROUGH THE URDD WEBSITE – link ↗ 2023 | Urdd Gobaith Cymru** This will need to be done by February 13th. **The school will register the groups such as choir, recitation party, dance groups, orchestra etc.**

Changes to the Nursery staff - Lleucu Haf has accepted a post as a teacher in Patagonia and will finish her duties in the Nursery Class on Friday, February 17th. I would like to thank her for her work and wish her well for the future.

Rhian Davies, the Nursery teacher will be returning from her maternity leave on Monday, February, 13th.

Following half term, **Siân Evans** and **Sioned Jones** will continue to share a post in the Nursery (as is happening at present) and will continue to teach with Rhian Davies.

Half Term Holidays - The school will close on Friday, February 17th and reopen on Monday, February 27th.

If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.

**R C Williams, Headteacher,
31/01/2023**